# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

**PENNOD 2**

ACHOSION GERBRON GWEINIDOGION CYMRU

*Darpariaethau gweithdrefnol sy'n gymwys i apelau i Weinidogion Cymru*

PROSPECTIVE

## 172 Ffioedd am apelau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud apêl y mae'r adran hon yn gymwys iddo dalu ffi i Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) i apêl o dan adran 100 (apêl yn erbyn penderfyniad neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth, i amrywio neu ddileu amodau neu i gymeradwyo manylion);

(b) i apêl o dan adran 127 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi).

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon yn benodol—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae rhaid talu ffi;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae ffi i'w chyfrifo (gan gynnwys pwy sydd i'w chyfrifo);

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 172 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(c) pennu amgylchiadau pan fo ffi i'w hepgor neu ei had-dalu (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(d) pennu amgylchiadau pan nad oes ffi i'w thalu;

(e) gwneud darpariaeth ynghylch effaith talu neu fethu â thalu ffi yn unol â'r rheoliadau (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 172 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 172 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.